



Bwletin Rhieni – Trefniadau Dychwelyd

Annwyl Riant/Warcheidwad

Rydyn ni nawr yn gallu edrych ymlaen at weld disgyblion yn dychwelyd i'r ysgol, ac rwy'n gwybod bod llawer o gwestiynau wedi codi ers cyhoeddiad y llywodraeth wythnos yn ôl. Ceisiaf ateb rhai ohonynt dros yr wythnos nesaf, nodi ble nad oes wybodaeth ar gyfer rhai eraill, a hefyd nodi ble mae gennym hyblygrwydd a ble nad oes hyblygrwydd.

Os oes gennych gwestiynau unigol gallwch gysylltu gyda'r ysgol (ymholiadau@penweddig.ceredigion.sch.uk) neu'r Arweinwyr Cynnydd a Lles (BI12a13@penweddig.ceredigion.sch.uk, BI10a11@penweddig.ceredigion.sch.uk BI8a9@penweddig.ceredigion.sch.uk neu BI6a7@penweddig.ceredigion.sch.uk).

Byddaf hefyd yn cynnal cyfres o **sesiynau holi ac ateb** i flynyddoedd gwahanol a bydd cyfle i **rieni disgyblion blwyddyn 11, 12 a 13** holi ni ar **ddydd Gwener am 1yp** trwy gyfarfod 'Teams'. Y ddolen ar gyfer y cyfarfod yw:

Microsoft Teams meeting Join on your computer or mobile app Click here to join the meeting	Dydd Gwener 12/3/21 1.00-2.00
---	----------------------------------

Dyddiadau dychwelyd

- Blwyddyn 7,8,9: Dydd Llun, 12fed o Ebrill
- Blwyddyn 10: dydd Llun, 22ain o Fawrth
- Blwyddyn 11-13: dydd Llun, 15fed o Fawrth
- Bydd amserlen arferol i'r dydd

Trefniadau dychwelyd

Bydd neges yn mynd allan i flynyddoedd gwahanol wrth i'w dyddiad dychwelyd agosáu. Bydd y neges hon i flwyddyn 11-13 yn mynd allan yfory (dydd Iau 11eg o Fawrth).

Byddwn ni'n parhau gyda'n trefniadau iechyd a diogelwch arferol wrth i ddisgyblion dychwelyd, a byddwn ni'n anfon pecyn wybodaeth allan i'ch atgoffa cyn y dyddiad dychwelyd. Bydd y disgwyliadau o ran mygydau i bawb ac argaeledd profion LFT i flwyddyn 10-13 yn newydd i ddisgyblion, a gallwch weld y rhesymau am y rhain yn y canllawiau cenedlaethol:

[Canllawiau gweithredol i ysgolion a lleoliadau o 15 Mawrth \[HTML\] | LLYW.CYMRU](#)

Profion LFT

Bydd **profion LFT ar gael i ddisgyblion o flwyddyn 10 ian**. Yn wahanol i drefniadau Lloegr ni fydd y profion hyn yn cael eu cynnal yn yr ysgol, ond byddant ar gael i ddisgyblion gwneud adref. Os fydd canlyniad positif bydd y disgybl yn medru archebu prawf PCR trwy'r GIG a bydd canlyniad negatif yn hwn yn meddwl fod y disgybl yn medru dychwelyd i'r ysgol yn syth. Bydd disgyblion yn gwneud y profion ar nos Sul a nos Fercher bob wythnos. Ar gyfer disgyblion sydd dros 16, gall disgyblion rhoi caniatâd ond bydd angen caniatâd rhiant ar gyfer disgyblion iau. Rhannaf fwy o wybodaeth yn y pecynnau wybodaeth dychwelyd.

Os dymunwch gasglu profion cyn i'ch plant dychwelyd i'r ysgol bydd **modd i chi gasglu'r rhain ar ddydd Iau 11eg rhwng 2-3 yp neu ddydd Gwener 12fed rhwng 9.30 a 12.30**. Bydd y profion yn cael eu dosbarthu wrth ddrws blaen yr ysgol. Bydd profion ar gael i weddill 11-13 o ddydd Llun, a bydd cyfle i ddisgyblion blwyddyn 10 eu casglu yn ystod yr wythnos nesaf.

Diwrnod dal lan a lles

Mae dydd lau yn ddiwrnod dal lan a lles. Mae hwn yn rhoi cyfle i ddisgyblion dal lan gyda gwaith sydd heb ei wneud neu wneud gweithgareddau sydd yn cefnogi eu lles – darllen, ymarfer corff ond gobeithiwn dim amser sgrin. Bydd athrawon yn paratoi at groeso disgyblion nol i'r ysgol ac ar gyfer y trefniadau asesu TGAU/UG/Safon Uwch.

Bydd bwletin manylach yn cael ei ddosbarthu i flwyddyn 11 a'r chweched dosbarth yfory, ac i bawb arall ar ddydd Gwener. Ceisiwn gyfathrebu'n fwy aml dros yr wythnosau nesaf i sicrhau ein bod ni'n ateb cwestiynau a delio gydag unrhyw bryderon sy'n codi.

Edrychaf ymlaen at weld yr ysgol yn llawn disgyblion unwaith eto.



Dr Rhodri Thomas
(Pennaeth)